

GWYBODAETH
I RIENI /
GWARCHEIDWAID

Canllaw i GYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

Mae'r Awdurdod Lleol yn annog gweithio ar y cyd rhwng rhieni, gwarcheidwaid, disgyblion, ysgolion, colegau a gweithwyr proffesiynol.

Nod y canllaw yma yw darparu gwybodaeth ynghylch cynorthwyo disgyblion ag **Anghenion Dysgu Ychwaengol (ADY)**.



RHONDDA CYNON TAF

Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

Pan fydd plentyn / person ifanc yn ei chael hi'n anoddach o lawer dysgu o'i gymharu â'u cyfoedion neu os oes gyda nhw anabledd sy'n effeithio ar yr addysg maen nhw'n gallu cael mynediad ati sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.



Beth yw Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

Mae CDU yn gynllun y mae pawb yn cytuno arno. Mae'n nodi sut bydd eich plentyn / person ifanc ag ADY yn cael ei gynorthwyo a chan bwy. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yr ysgol yn paratōi'r CDU ac yn ei adolygu.

Wedi dweud hynny, mewn rhai achosion gall y broses yma gael ei chyfeirio at yr Awdurdod Lleol (ALI). Fel arfer mae'n cymryd 7 wythnos i'r ysgol ysgrifennu cynllun, a 12 wythnos i'r ALI. Os yw'r person ifanc rhwng 16-25 oed bydd angen iddo/iddi roi caniatād i'r cynllun gael ei ysgrifennu.

Beth sydd mewn Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

Bydd CDU yn cynnwys:

- Gwybodaeth gyffredinol (enw, oedran, cyfeiriad ac ati).
- Proffil 'popeth amdana i' sy'n nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda, beth maen nhw'n ei hoffi, ddim yn hoffi a'r help sydd ei angen arnyn nhw.
- Manylion ADY y disgybl.
- Pa ddarpariaeth ychwanegol a gwahanol fydd yn cael ei rhoi ar waith - yr enw ar hyn yw **Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)**.

Pwy sy'n cyfrannu at Gynllun Datblygu Unigol (CDU)?

A chithau'n rhiant/gwarcheidwad, bydd eich barn chi a barn eich plentyn / person ifanc wrth wraidd y **dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** wrth ddatblygu'r CDU.

Bydd gofyn i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda'ch plentyn / person ifanc ddod i gyfarfod a neu anfon adroddiadau i gyfrannu at y CDU. Gall hyn gynnwys Athrawon, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Athrawon Arbenigol, Seicolegwyr Addysg a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol.

Adolygu'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Rhaid adolygu'r cynllun ymhen 1 flwyddyn galendr, ond byddai modd ei adolygu'n gynharach os oes newid sylweddol wedi bod o ran amgylchiadau'r unigolyn dan sylw.

Bydd yr adolygiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bobl berthnasol gwrdd a/neu gyflwyno adroddiadau, gan nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda ac a oes angen unrhyw newidiadau.



Anghytundeb

Os oes gyda chi unrhyw bryderon ynghylch cynnwys y CDU, mae proses datrys anghytundebau ar gael i chi.

Dylid codi pryderon gyda'r Pennaeth yn yr ysgol yn y lle cyntaf neu drwy ffonio ein **Swyddog Cyswllt Teuluoedd** ar **01443 744344** neu drwy ein tudalen we **www.rctcbc.gov.uk**.

Os yw'r anghytundeb yn ymwneud ag asesiad, triniaeth neu wasanaeth y GIG dylid codi hyn gyda'ch Darparwr Iechyd yn y lle cyntaf. Os yw'r anghytundeb yn parhau i fod heb ei ddatrys, dylech ei gyfeirio at: **www.llyw.cymru/cwunion-phryderon-am-gig-cymru-gweithio-i-wella**



Eiriolaeth

Pan fydd angen cymorth mae modd ei geisio gan eiriolwr. Eiriolwr yw rhywun a fydd yn siarad ar eich rhan. Gall fod yn ffrind, aelod o'r teulu neu'n asiantaeth broffesiynol.

Os oes angen eiriolwr proffesiynol arnoch chi, cysylltwch â SNAP ar:

Llinell gymorth: 0808 801 0608

☎ 02920 348 990 ✉ **ymholiadau@snapcymru.org**



Tribiwnlys

Os yw'ch anghytundeb yn parhau i fod heb ei ddatrys, gallwch chi geisio cymorth gan Dribiwnlys Addysg Cymru. Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn grŵp annibynnol o weithwyr proffesiynol a fydd yn adolygu'r achos ac yn ceisio'ch llywio wrth benderfynu ar y ffordd orau ymlaen. Mae modd cysylltu â Thribiwnlys Addysg Cymru yma:

Tribiwnlys Addysg Cymru (TAAAC)

Adeiladau'r Llywodraeth, Spa Road East, Llandrindod Wells

Powys LD1 5HA

☎ 0300 025 9800

✉ Tribunal.Enquiries@llyw.cymru



Gwybodaeth a Chyngor

Am unrhyw wybodaeth ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Gynlluniau Datblygu Unigol, cysylltwch â ni:

☎ 01443 744344

✉ GweinydduAAA@rctcbc.gov.uk

📞 www.rctcbc.gov.uk

📞 www.snapcymru.org

TAAAC

www.taaac.llyw.cymru

SNAP Cymru

www.snapcymru.org

NYAS

www.nyas.net

Llywodraeth Cymru

www.llyw.cymru



LLWYBR I RIENI

Plentyn, rhiant/gwarcheidwad, person ifanc yn codi pryder

Cynhelir cyfarfod gyda'r holl unigolion perthnasol sy'n cefnogi'ch plentyn / person ifanc i benderfynu a oes gyda fe/hi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Trafodaeth ynghylch a oes gyda'r plentyn / person ifanc Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

OES

NAC OES

Mae CDU yn cael ei greu mewn partneriaeth â chi, eich plentyn / person ifanc a'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol

Ysgol/coleg i barhau i gefnogi'r plentyn / person ifanc

Os nad oes unrhyw bryderon ynghylch y CDU, mae'r ysgol/coleg yn ei gynnal ac yn ei adolygu bob blwyddyn

Os na chytunir ar CDU neu os yw'n rhy gymhleth, gall y plentyn, person ifanc, rhiant, gwarcheidwad, ysgol a choleg atgyfeirio'r achos at yr ALL

Ysgol/coleg i ddarparu taflen wybodaeth i'r rhiant/gwarcheidwad

ALL yn ystyried yr achos.

CDU i'w gynnal gan yr ysgol/coleg. Gall yr ALL awgrymu diwygio'r cynnwys

Mae'r ALL yn cymryd yr awenau o ran cynnal ac adolygu'r CDU

Y Broses Apelio